AC 01-99(p.1)(w)

# Memorandwm gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

## Amcangyfrif drafft o incwm a threuliau Archwilydd Cyffredinol Cymru am y flwyddyn a ddaw i ben 31 Mawrth 2001

*Cyflwynwyd i Bwyllgor Archwilio Cynulliad Cenedlaethol Cymru*

**Medi 1999**

# Amcangyfrif drafft o incwm a threuliau Archwilydd Cyffredinol Cymru am y flwyddyn a ddaw i ben 31 Mawrth 2001

## Cefndir Statudol

1. O dan Adrannau 93(4) hyd (7) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, mae'n ofynnol i mi gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio amcangyfrif o incwm a threuliau fy swyddfa ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Mae'n ofynnol i'r Pwyllgor Archwilio archwilio fy amcangyfrif a'i osod ger bron y Cynulliad. Os bydd y Pwyllgor yn dymuno newid yr amcangyfrif, bydd yn rhaid iddo ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol a dilyn ei gyngor.

2. Mae'n ofynnol i mi o dan Adrannau 100(3) a 145(3) ystyried barn y Pwyllgor wrth lunio fy rhaglen archwiliadau arbedion, effeithiolrwydd ac effeithioldeb (gwerth am arian). Cyflwynais femorandwm ar wahân i'r Pwyllgor ar fy nghynigion archwilio gwerth am arian a byddwn yn croesawu awgrymiadau gan Aelodau ar gwmpas a graddfa'r gwaith hwn pan roddaf dystiolaeth ger bron y Pwyllgor ar 21 Medi 1999.

### Amcangyfrif Drafft

3. Cytunwyd ar fy amcangyfrif ar gyfer y flwyddyn gyfredol â'r Swyddfa Gymreig gynt cyn sefydlu'r Cynulliad. Yn naturiol ni hoffwn derfynu fy amcangyfrif ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben 31 Mawrth 2001 nes y caiff y Pwyllgor gyfle i fynegi barn ar fy rhaglen waith gwerth am arian. Felly paratoais dri opsiwn posibl yn yr amcangyfrif drafft a atodir i'r memorandwm hwn. Mae'r opsiynau'n adlewyrchu

cost y tri chynnig gwerth am arian gwahanol fel y’u nodwyd yn fy memorandwm ar wahân.

4. Mae’r tri amcangyfrif posibl yn cynnwys yr un symiau am gostau gwaith ariannol a gwaith archwilio arall a chostau gweinyddol rhedeg fy swyddfa. Mae’r esboniadau a atodir i’r amcangyfrif drafft yn esbonio natur y treuliau hynny.

5. Ar ôl i’r Pwyllgor fynegi barn yng nghyfarfod 21 Medi 1999, byddaf yn terfynu fy amcangyfrif ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 1999 mewn cydweithrediad agos â’r Cadeirydd fel y gellir wedyn ei osod yn ffurfiol ger bron y Cynulliad. Os bydd ar Aelodau angen unrhyw wybodaeth bellach cyn cyfarfod Medi, bydd Ian Summers o’r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yng Nghymru yn falch o gynorthwyo.

**John Bourn** Adeilad Penpier
**Archwilydd Cyffredinol Cymru** Glannau'r Brifddinas
Caerdydd
14 Medi 1999 CF10 5TH